

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Tachwedd 5ed 2019 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Maldwyn Jones (is-gadeirydd), Gwynedd Jones, Eilir Rowlands, Meilir Jones, Eifion Davies, Gwenda Morris, Alwyn Jones, Dewi Pritchard, Gwenda Evans, Gary Thomas, Bethan Thomas, y Cyng. Elwyn Edwards a'r cler.

Croesawyd Bethan Thomas i'w chyfarfod cyntaf. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rita Jones ac Iolo Evans. Anfonwyd ein cofion at Iolo Evans a oedd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Hydref a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

v) Materion vn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

i) Sgwâr Llandderfel - dderbyniwyd llythyr yn egluro fod y gweithlu wedi bwriadu gwneud y gwaith arwisgo yn yr haf ond mynegwyd pryder gan un o'r trigolion y byddai'r gwaith o godi lefel yr wyneb yn achosi llifogydd i'w eiddo. Oherwydd hyn bu rhaid gohirio'r gwaith ond bwriedi'r ei wneud pan fydd adnoddau yn caniatáu.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn /Cwmni Pum Plwy Penllyn.

i) Derbyniwyd copiâu o gofnodion y cyfarfodydd diwethaf.

ii) Gwahoddiad i noson gymdeithasol yng Nghanolfan Henblas, 14/11/19. Cytunodd Eifion Davies fynychu'r noson ar ran y Cyngor Cymuned.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol:-

C19/0960/04/LL – Estyniad cefn unllawr. 12, Bro Hafesb, Llandderfel.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i adael y penderfyniad i arbenigedd y swyddogion cynllunio.

vi) Materion Ariannol.

a) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyngor Gwynedd (Archwiliad Mewnol).

vii) Materion lleol.

a) Annibyniaeth i Gymru.

Cynigwyd ac eiliwyd i drafod yr ymgyrch Annibyniaeth i Gymru. Yn dilyn trafodaeth cymerwyd pleidlais a chytunwyd i gefnogi'r ymgyrch.

b) Gofynnwyd i'r cler basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-

i) Roedd angen clirio'r ffosydd ar yr A4212 ger Llyn Celyn gan fod dŵr yn dod i'r ffordd ac roedd peryg iddo rewi yn y gaeaf. Roedd draen wedi cau hefyd ar yr A494 ger Llyn Cilan Goch.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Rhagfyr 3ydd yn Neuadd Bro Derfel am 7.30 y.h.